# ASESIAD EFFAITH INTEGREDIG LLYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **Teitl y cynnig:** | Data i fonitro'r system anghenion dysgu ychwanegol (ADY) |
| **Adran:** | **Y Gyfarwyddiaeth Addysg** |
| **Dyddiad Dechrau:** | **Gorffennaf 2025** |

DRAFT

# A. ASESIAD O'R EFFAITH AR HAWLIAU PLANT

Teitl y Cynnig:

**Data arfaethedig i fonitro'r system anghenion dysgu ychwanegol (ADY)**

## 1. Amcanion polisi

### Cefndir

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i greu system addysg gynhwysol lle mae dysgwyr o bob math, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), yn cael eu cefnogi i gael mynediad at addysg o ansawdd uchel mewn ysgolion a gynhelir, a chyfranogi'n llawn mewn addysg o'r fath. Mae hyn yn cynnwys newid i'r system ADY ochr yn ochr â chyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru sy'n ceisio dileu rhwystrau i'r holl ddysgwyr a sicrhau bod gan athrawon fwy o hyblygrwydd i ddiwallu anghenion unigol pob dysgwr. Mae'r rhain yn cael eu hategu gan ddull ysgol gyfan o gefnogi iechyd meddwl a llesiant meddyliol.

Mae'r system ADY yn seiliedig ar Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 a Chod ADY Cymru 2021, a bydd yn cael ei chyflwyno erbyn mis Awst 2025 ar sail dull gweithredu graddol dros bedair blynedd rhwng mis Medi 2021 a mis Awst 2025. Mae'r system yn cefnogi plant a phobl ifanc yng Nghymru rhwng 0 a 25 oed ag ADY. Mae'n disodli'r system Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) a'r system ar gyfer cefnogi pobl ifanc ag anawsterau neu anableddau dysgu.

Ystyriwyd amcanion Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg ac asesiad o sut y byddai'n hyrwyddo hawliau plant yn ystod y broses o ddatblygu Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg. Cyhoeddwyd asesiad o'r effaith ar hawliau plant fel rhan o gyfres o asesiadau effaith ym mis Rhagfyr 2016 pan gyflwynwyd y Bil, a chawsant eu diwygio yn ystod y broses craffu ar ôl deddfu. Cyhoeddwyd Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant arall ym mis Tachwedd 2020 er mwyn ystyried effaith cymwysterau a swyddogaethau'r Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (CADY), fel y'i rhagnodir yn y rheoliadau.

Er mwyn cyflawni ei rôl a'i swyddogaethau craidd, mae Llywodraeth Cymru yn derbyn data personol a data categori arbennig am blant a phobl ifanc yn uniongyrchol gan ysgolion, darparwyr blynyddoedd cynnar ac awdurdodau lleol fel rhan o brosesau casglu data statudol. Mae'r data hwn yn cynnwys gwybodaeth am AAA neu ADY plentyn neu berson ifanc. Mae'r Hysbysiad Preifatrwydd yn Atodiad A yn darparu rhagor o wybodaeth am y prosesau casglu data hyn gan gynnwys pa ddata y mae Llywodraeth Cymru yn ei dderbyn, y sail gyfreithlon dros gasglu'r data, a'r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud gyda'r data.

**Pa benderfyniad yr ydym yn ei ystyried?**

Mae angen ystod o wybodaeth ar Lywodraeth Cymru a chyrff cyfrifol fel ysgolion ac awdurdodau lleol i roi cymorth effeithiol i ddysgwyr ag ADY er mwyn iddynt gyflawni eu llawn botensial, yn ogystal â monitro, gwerthuso a gwella'r system ADY. Mae hyn yn cynnwys data am blant a phobl ifanc ag ADY, y cymorth a dderbyniant a data am gyflwyno'r system ADY.

Mae angen diweddaru'r data ADY sy'n cael ei gofnodi gan ysgolion ac awdurdodau lleol, a'i rannu â Llywodraeth Cymru, fel ei fod yn cyd-fynd â pholisi a deddfwriaeth ADY. Ein bwriad yw diweddaru data er mwyn sicrhau bod gan Lywodraeth Cymru a chyrff cyfrifol ddata perthnasol, priodol ac ystyrlon am y system ADY er mwyn:

- monitro perfformiad y system ADY a'i chanlyniadau, gan sicrhau ei bod yn diwallu anghenion plant a phobl ifanc a bod modd ei gwella yn barhaus
- deall i ba raddau y mae dyletswyddau o dan y fframwaith deddfwriaethol ADY yn cael eu cyflawni
- llywio penderfyniadau cynllunio strategol a pholisïau sy'n seiliedig ar dystiolaeth
- helpu rhanddeiliaid i gyflwyno a rheoli'r ddarpariaeth orau bosibl yn effeithiol er mwyn cefnogi eu dysgwyr
- darparu gwybodaeth ac adroddiadau ystyrlon am ADY er budd y sector addysg a rhanddeiliaid

Mae'r asesiad hwn o'r effaith ar hawliau plant yn ymwneud â'r newidiadau drafft i'r data ADY y mae Llywodraeth Cymru yn ei dderbyn trwy brosesau casglu data statudol. Mae'n asesu effaith y newidiadau hyn ar blant a phobl ifanc. Nodir gwybodaeth am y data y cynigiwn y dylai awdurdodau lleol ac ysgolion ei gofnodi, ac y mae Llywodraeth Cymru yn ei gasglu, yn yr ymgynghoriad ar y data i fonitro'r system ADY.

## 2. Casglu tystiolaeth ac ymgysylltu â phlant a phobl ifanc

### Ymchwil a data presennol yn ymwneud â phlant a phobl ifanc ag ADY

Mae llawer o wybodaeth a thystiolaeth eisoes yn cael eu defnyddio i fonitro'r broses o gyflwyno'r system ADY a'i nodau arfaethedig, ac i lywio'r gwaith o lunio polisïau. Mae'r data hwn wedi bod yn sylfaen i ddadansoddi a dysgu am ADY.

Mae data ar AAA ac ADY eisoes yn cael ei gasglu trwy ffynonellau mewnol ac allanol amrywiol. Mae'r ffynonellau data presennol yn cynnwys data addysg Llywodraeth Cymru, data gan Sefydliadau Addysg Bellach (SAB) a darparwyr hyfforddiant dysgu seiliedig ar waith, a data blynyddoedd cynnar a gyhoeddir gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). Mae rhywfaint o'r wybodaeth hon yn ddata ar lefel unigol, tra bod rhywfaint ohoni yn cael ei chasglu ar lefel grynswth.

Gwnaed mân newidiadau i brosesau casglu data statudol Llywodraeth Cymru er mwyn adlewyrchu cyflwyno'r system ADY cyn ei gweithredu. Er enghraifft, mae'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD), y Cyfrifiad Derbyn Addysg Heblaw yn yr Ysgol (AHY) a'r Cyfrifiad Blynyddol o'r Gweithlu Ysgolion (CBGY) bellach yn casglu gwybodaeth am blant a phobl ifanc sydd â chynlluniau datblygu unigol (CDU) a CADY.

Mae Llywodraeth Cymru yn rhannu data AAA ac ADY yn eang er mwyn cefnogi'r sector a darparu tryloywder. Rydym yn cynnwys y data hwn mewn Setiau Data Craidd Cymru Gyfan (SDCCG) sy'n cael eu darparu i ysgolion ac awdurdodau lleol er mwyn eu helpu i hunanwerthuso a gwella. Hefyd, rydym yn cyhoeddi'r data trwy ddatganiadau ystadegol swyddogol, gan gynnwys rhai sy'n cysylltu data ADY â setiau data eraill, er enghraifft dadansoddi absenoldeb neu ddeilliannau TGAU Cyfnod Allweddol 4 ar sail ADY, ac ar StatsCymru ac ar lefel ysgol ar wefan Fy Ysgol Leol.

Comisiynwyd cwmni Ymchwil Arad i ymgymryd â phrosiect ymchwil pedair blynedd i asesu effeithiolrwydd cyflwyno'r system ADY a nodi unrhyw rwystrau neu hwyluswyr i'w gweithredu, ac o ganlyniad, i nodi mesurau y gellid eu rhoi ar waith i helpu i gyflawni a gwireddu amcanion polisi. Mae'r "Gwerthusiad o'r System Anghenion Dysgu Ychwanegol: Adroddiad Cwmpasu" yn cynnwys canfyddiadau'r broses mapio data a archwiliodd y data sydd ar gael mewn perthynas â'r mewnbynnau, y gweithgareddau, y deilliannau a'r effeithiau a nodir yn y Ddamcaniaeth Newid ar gyfer y system ADY.

Fel rhan o'r gwaith hwn, ym mis Mawrth 2025, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru adroddiad ar arolwg o ymarferwyr a gweithwyr proffesiynol. Cynhaliwyd arolwg yn ddiweddar i gofnodi safbwyntiau a phrofiadau rhieni a gofalwyr o'r system ADY. Daeth yr arolwg i ben ar 17 Ebrill a chafwyd dros 1,900 o gyfranogwyr. Mae'r data yn cael ei ddadansoddi ar hyn o bryd a disgwylir y bydd adroddiad yn cael ei gyhoeddi yn yr hydref.

Mae Estyn wedi cyhoeddi dau adroddiad thematig ar weithredu'r system anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yng Nghymru. Cyhoeddwyd yr adroddiad cyntaf ym mis Medi 2023 a'r ail ym mis Rhagfyr 2024. Mae Estyn yn parhau i fonitro'r system ADY fel rhan o'i gwaith arolygu.

Mae Plant yng Nghymru wedi derbyn cyllid i hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o hawliau plant a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, a'r protocolau dewisol yng Nghymru. Ar gyfer dysgwyr ag ADY, mae hyn yn ymwneud yn benodol â rhaglen 'Cenhadon ADY' ar gyfer hwyluso cyfranogiad a chasglu safbwyntiau plant a phobl ifanc ag ADY. Prosiect tair blynedd yw hwn ac roedd blwyddyn dau (2023-2024) yn cynnwys gwaith parhaus gyda dysgwyr mewn pedwar lleoliad gwahanol (gan gynnwys cynradd, uwchradd a chyfrwng Cymraeg). Bydd canfyddiadau'r rhaglen Cenhadon ADY yn cael eu hystyried fel rhan o'r asesiad effaith hwn.

Yn ogystal â'r uchod, archwiliwyd tystiolaeth a gwybodaeth amrywiol gan randdeiliaid er mwyn monitro gweithrediad. Nid yw'r rhain i gyd wedi canolbwyntio'n uniongyrchol ar blant a phobl ifanc, ond maent i gyd yn cyfeirio at effeithiau sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Grŵp Llywio Cenedlaethol Diwygio ADY
- Estyn yn ei rôl fel arolygiaeth addysg a hyfforddiant Cymru
- Arweinwyr Gweithredu ADY Cenedlaethol
- Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol Cymru
- SNAP Cymru
- TSANA



Draft

- Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru
- Ymgysylltu â chynrychiolwyr y sector ac Undebau Llafur

**Ceisio barn rhanddeiliaid**

Er mwyn cefnogi'r gwaith o ddatblygu set ddata ADY arfaethedig, ymgysylltwyd ag awdurdodau lleol, cynrychiolaeth fechan o Gydlynwyr ADY, Estyn a swyddogion polisi Llywodraeth Cymru yn Hydref 2024. Dangosodd hyn yr heriau sy'n bodoli o ran y data presennol, ac arweiniodd at awgrymiadau am sut i sicrhau bod y data yn gallu cefnogi ysgolion ac awdurdodau lleol yn well wrth fonitro a gwella'r system ADY a sicrhau bod y ddarpariaeth yn cynorthwyo dysgwyr ag ADY i gyflawni eu potensial.

Byddwn yn ymgynghori'n ffurfiol ar y data ADY arfaethedig ddiwedd haf/hydref 2025. Bydd yr ymgynghoriad yn ceisio derbyn adborth gan yr holl randdeiliaid sy'n arolygu, yn cofnodi, yn cynnal a/neu'n defnyddio'r data y mae Llywodraeth Cymru yn ei gasglu a'i gyhoeddi am y system ADY. Mae hyn yn cynnwys ymarferwyr, arweinwyr, awdurdodau lleol a sefydliadau partner fel Estyn a Cymwysterau Cymru. Hefyd, mae'n cynnwys y rhai sy'n gweithio yn y trydydd sector neu'r maes ymchwil sy'n defnyddio'r wybodaeth a gyhoeddir, a chyflenwyr systemau rheoli gwybodaeth ysgolion ac awdurdodau lleol neu atebion meddalwedd addysgol eraill.

Yn ogystal, byddwn yn cyhoeddi fersiwn o'r ymgynghoriad sy'n addas i'r dysgwyr y mae Llywodraeth Cymru yn derbyn gwybodaeth amdanynt, eu rhieni neu ofalwyr, ac unrhyw un arall sydd â diddordeb ym mhwnc yr ymgynghoriad hwn.

Byddwn yn defnyddio platfformau cyfathrebu ADY i roi gwybod am yr ymgynghoriad i gynrychiolwyr o ysgolion, awdurdodau lleol a rhanddeiliaid eraill sy'n defnyddio data ADY a gyhoeddir (bydd gan lawer ohonynt gysylltiad â phlant a phobl ifanc). Byddwn yn rhoi gwybod am yr ymgynghoriad i rieni/gofalwyr trwy gysylltiadau presennol â phartneriaid yn y trydydd sector a grwpiau cynrychiolwyr.

Byddwn yn ymgysylltu â phlant a phobl ifanc yn ystod y cyfnod ymgynghori i ofyn am eu safbwyntiau ar y data y bwriadwn ei gasglu. Rydym yn archwilio opsiynau ystyrlon i wneud hyn, gan gynnwys er enghraifft, trwy Gydlynwyr ADY.

3. **Gan ddefnyddio'r gwaith ymchwil hwn, sut ydych chi'n rhagweld y bydd eich polisi yn effeithio ar wahanol grwpiau o blant a phobl ifanc, yn gadarnhaol ac yn negyddol?**

Bydd y newidiadau arfaethedig i brosesau casglu data ALN statudol yn hwyluso dealltwriaeth fwy gronynnog a chynhwysol o brofiadau dysgwyr ar draws grwpiau amrywiol. Mae data Llywodraeth Cymru a thystiolaeth ac ymchwil ehangach yn nodi sut y gallai'r newidiadau a gynigir effeithio ar grwpiau gwahanol o blant ag ADY. Er enghraifft, mae gwaith ymchwil gan Brifysgol Bryste yn dangos bod oedran yn cael effaith fawr ar y tebygolrwydd o nodi plant a phobl ifanc ag ADY, a bod plant iau yn llai tebygol o gael eu nodi; gwaith ymchwil a data amrywiol sy'n dangos bod dysgwyr sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim yn debygol o gael eu gorgynrychioli ymhlith y rhai ag ADY; a gwaith ymchwil gan Brifysgol Durham sy'n dangos bod Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) merched yn llawer llai tebygol o gael eu nodi. Mae rhagor o fanylion am yr effaith bosibl ar grwpiau gwahanol o blant neu bobl ifanc wedi'u cynnwys yn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (AEA) cysylltiedig, a gyhoeddir fel fersiwn ddrafft ochr yn ochr â'r asesiad hwn o'r effaith ar hawliau plant.

Bydd cyflwyno data lefel unigol, er enghraifft, yn ymwneud â phenderfyniadau a darpariaeth ADY, yn cael effaith gadarnhaol anghymesur ar blant a'u teuluoedd sy'n byw o dan anfantais economaidd-gymdeithasol, rhai plant ethnig leiafrifol, plant anabl, plant iau, merched a bechgyn. Bydd Llywodraeth Cymru mewn sefyllfa well i fonitro sut mae dysgwyr ADY o'r grwpiau gwahanol hyn sydd â nodweddion gwarchodedig yn cael eu nodi a'u cefnogi yn y system ADY. Trwy wella gwelededd fel hyn, bydd modd cefnogi ymdrechion i nodi gwahaniaethau rhwng mynediad at gymorth a sicrhau bod gweithredu'r system ADY yn hyrwyddo tegwch a chysondeb ar gyfer pob grŵp o ddysgwyr. Bydd y data hwn yn helpu i lywio polisi a deddfwriaeth yn y dyfodol i wella arferion a deilliannau plant ag ADY.

Er nad ydym wedi ymgysylltu'n uniongyrchol â phlant a phobl ifanc ar y newidiadau arfaethedig eto, rydym yn archwilio opsiynau ystyrlon i ymgysylltu â phlant a phobl ifanc ag ADY yn ystod y cyfnod ymgynghori, er mwyn sicrhau ein bod yn clywed eu safbwyntiau, e.e. ymgysylltu trwy CADY. Hefyd, byddwn yn hysbysu rhieni/gofalwyr am yr ymgynghoriad, gan gynnwys er enghraifft drwy SNAP Cymru, ac rydym yn ymgysylltu â chynrychiolwyr o ysgolion, awdurdodau lleol ac asiantaethau eraill (mae gan lawer ohonynt gysylltiad uniongyrchol â phlant a phobl ifanc).

Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried y safbwyntiau sy'n cael eu casglu wrth gwblhau'r newidiadau i'r data ADY sy'n cael ei gofnodi a'i gasglu.

<u>Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant yn ddogfen ddrafft, ac os oes unrhyw faterion anhysbys eraill yn codi o'r ymgynghoriad, bydd yr asesiad yn cael ei ddiwygio i adlewyrchu hyn.</u>

DRAFT

**4. Dadansoddi'r dystiolaeth ac asesu'r effaith**

Rydym eisiau sicrhau bod gan Lywodraeth Cymru a chyrff cyfrifol megis ysgolion ac awdurdodau lleol ystod o wybodaeth i roi cymorth effeithiol i ddysgwyr ag ADY er mwyn iddynt gyflawni eu llawn botensial, yn ogystal â monitro, gwerthuso a gwella'r system ADY.

Rhagwelir y bydd cyflwyno'r data ADY arfaethedig yn cael effaith gadarnhaol ar blant a phobl ifanc oherwydd bydd yn sicrhau bod gan Lywodraeth Cymru, ysgolion ac awdurdodau lleol yr wybodaeth gywir i gefnogi dysgwyr ag ADY i gyflawni eu llawn botensial, yn ogystal â monitro, gwerthuso a gwella'r system ADY.

Mae Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi'i gwblhau ochr yn ochr â'r Asesiad hwn o'r Effaith ar Hawliau Plant er mwyn asesu effaith bosibl y cynigion ar unigolion â nodweddion gwarchodedig, gan gynnwys dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Roedd yr asesiad hwn yn ystyried croestoriadedd nodweddion fel anabledd, oedran, a dewis iaith, a sut y gallant ddylanwadu ar fynediad at gymorth a deilliannau o dan y system ADY. Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn sicrhau bod sylw dyledus wedi'i roi i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a bod ystyriaethau cydraddoldeb wedi'u hymwreiddio yn y broses o ddatblygu'r polisi hwn drwyddi draw.

Hefyd, bydd yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant yn cael ei adolygu ochr yn ochr ag unrhyw gynigion ar gyfer newid yn y dyfodol.

| Erthyglau neu Brotocol Dewisol y Confensiwn | Yn Gwella (X) | Yn Herio (X) | Esboniad |
|---|---|---|---|
| **Erthygl 2** (peidio â gwahaniaethu)<br><br>Mae'r Confensiwn yn gymwys i bob un, beth bynnag fo'i hil, ei grefydd, ei alluoedd, beth bynnag y mae'n ei feddwl neu'n ei | X | | Bydd y newidiadau arfaethedig i brosesau casglu data ADY statudol yn hwyluso dealltwriaeth fwy gronynnog a chynhwysol o brofiadau dysgwyr ar draws grwpiau amrywiol. Drwy gyflwyno data ar lefel unigol, er enghraifft, ar benderfyniadau a darpariaeth ADY, bydd Llywodraeth Cymru mewn sefyllfa well i fonitro sut mae dysgwyr ADY o gefndiroedd ethnig gwahanol, cyd-destunau economaidd-gymdeithasol gwahanol, a nodweddion gwarchodedig eraill yn cael eu nodi a'u cefnogi o fewn y system ADY. Trwy wella gwelededd fel hyn, bydd modd cefnogi |

| | | | |
|---|---|---|---|
| ddweud a pha fath bynnag o deulu y daw ohono. | | | ymdrechion i nodi gwahaniaethau rhwng mynediad at gymorth a sicrhau bod gweithredu'r system ADY yn hyrwyddo tegwch a chysondeb ar gyfer pob grŵp o ddysgwyr. |
| **Erthygl 3**<br><br>Dylai pob sefydliad sy'n ymwneud â phlant weithio at yr hyn sydd orau i bob plentyn. | X | | Mae'r newidiadau arfaethedig yn cynnwys casglu data yn ymwneud ag a yw darpariaeth ar gyfer dysgwyr ag ADY wedi'i sicrhau gan fwrdd iechyd lleol. Bydd y dystiolaeth hon yn ein helpu i werthuso a deall y galw am ymyrraeth iechyd, ond hefyd sut mae'r ymagwedd aml-asiantaeth at ADY yn cael ei gweithredu a sut y gallai effeithio ar lwyddiant ac ymgysylltiad dysgwyr ag addysg. |
| **Erthygl 6**<br><br>Mae gan bob plentyn hawl i fyw. Dylai llywodraethau ofalu bod plant yn goroesi ac yn datblygu'n iach. | X | | |
| **Erthygl 12**<br><br>Mae gan blant yr hawl i ddweud eu barn ynghylch yr hyn a ddylai ddigwydd pan fo oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n | X | | Byddwn yn sicrhau ein bod yn ymgysylltu â dysgwyr ADY mewn ffordd ystyrlon yn ystod y broses ymgynghori. Yn ogystal, byddwn yn darparu fersiwn o'r ymgynghoriad sy'n addas i ddysgwyr a'u rhieni/gofalwyr er mwyn sicrhau bod ganddynt gyfle i roi adborth ar y broses casglu data arfaethedig. |

DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| effeithio arnyn nhw, ac i'w barn gael ei hystyried. | | | |
| **Erthygl 13**<br><br>Mae gan blant yr hawl i gael a rhannu gwybodaeth ar yr amod nad yw'r wybodaeth yn niweidiol iddyn nhw ac i eraill. | X | | Mae'r hysbysiad preifatrwydd ar gyfer y prosesau casglu data yn nodi hawl plant a phobl ifanc, o dan y GDPR, i gael mynediad at y data personol y mae Llywodraeth Cymru yn ei brosesu amdanynt. |
| **Erthygl 16**<br><br>Mae gan blant yr hawl i breifatrwydd. Dylai'r gyfraith eu cadw rhag ymosodiadau ar eu ffordd o fyw, eu henw da, eu teuluoedd a'u cartrefi. | X | | Mae data statudol Llywodraeth Cymru yn casglu gwybodaeth bwysig am blant a phobl ifanc. Mae Llywodraeth Cymru yn cadw eu data yn saff a diogel yn unol â'r hyn a nodir yn Hysbysiad Preifatrwydd Llywodraeth Cymru ar gyfer casglu data statudol. Mae mesurau diogelu ar waith i sicrhau na fydd modd adnabod dysgwyr trwy gyhoeddi data sy'n gysylltiedig ag ADY. Bydd eitemau data yn cael eu dileu os ydynt yn datgelu gwybodaeth bersonol. |

DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Erthygl 23**<br><br>Dylai plant sydd ag anabledd o unrhyw fath gael gofal arbennig a chefnogaeth fel y gallant fyw bywyd llawn ac annibynnol. | X | | Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i greu system addysg gynhwysol lle mae dysgwyr o bob math, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), yn cael eu cefnogi i gael mynediad at addysg o ansawdd uchel mewn ysgolion a gynhelir, a chyfranogi'n llawn mewn addysg o'r fath. Mae hyn yn cynnwys newid i'r system ADY ochr yn ochr â chyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru sy'n ceisio dileu rhwystrau i'r holl ddysgwyr a sicrhau bod gan athrawon fwy o hyblygrwydd i ddiwallu anghenion unigol pob dysgwr. Mae'r rhain yn cael eu hategu gan ddull ysgol gyfan o gefnogi iechyd meddwl a llesiant meddyliol.<br><br>Gweler Erthygl 2 ar sut y bydd y broses arfaethedig o gasglu data yn cefnogi hyn. |
| **Erthygl 28**<br><br>Mae gan blant yr hawl i addysg. Dylai disgyblaeth mewn ysgolion barchu urddas dynol plant. Dylai addysg gynradd fod am ddim. Dylai gwledydd cyfoethog helpu gwledydd tlotach i gyflawni hyn. | X | | Gweler Erthygl 2. |

DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Erthygl 29**<br><br>Dylai addysg ddatblygu personoliaeth a doniau pob plentyn yn gyflawn. Dylai annog plant i barchu eu rhieni, eu diwylliant nhw ac eraill ac yr amgylchedd. | X | | Gweler Erthygl 2. |

**5. Cyngor Gweinidogol a Phenderfyniad y Gweinidog**

Bydd Pennaeth yr Is-adran Cymorth i Ddysgwyr yn llofnodi'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant, a bydd y dadansoddiad yn cael ei ddefnyddio i lywio ein cyngor i Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg ar gyfer cymeradwyo ymgynghoriad ar ddata ADY. Bydd yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant yn cyd-fynd â'r MA pan gaiff ei anfon i'r CSE.

**6. Cyfathrebu â Phlant a Phobl Ifanc**

Byddwn yn cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad a byddwn yn gweithio gyda chydweithwyr Cyfathrebu i hysbysu plant a phobl ifanc am y canlyniad. Hefyd, byddwn yn rhannu'r canfyddiadau trwy'r CADY sy'n ymgysylltu â phlant a phobl ifanc fel rhan o'r broses ymgynghori.

**7. Monitro ac Adolygu**



DRAFT

Bydd yr Asesiad hwn o'r Effaith ar Hawliau Plant yn cael ei adolygu ar ôl yr ymgynghoriad wedi inni gwblhau'r broses o gasglu data ADY. Os yw hyn yn arwain at angen i ddiwygio ein cynigion, bydd yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant a adolygir yn cael ei gyflwyno i Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, er mwyn cefnogi unrhyw gynigion diwygiedig.

DRAFT